**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

**Alun Davies AC / AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Lifelong Learning and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhagfyr 6 2016

At: Brif Swyddogion Addysg Awdurdodau Lleol

Annwyl Gyfaill

**Blaenoriaethau ar gyfer chweched dosbarth ysgolion 2017/18**

Rwy'n ysgrifennu i gadarnhau fy mlaenoriaethau ar gyfer chweched dosbarth ysgolion ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18. Fy mwriad yw rhoi fframwaith i chi ar gyfer cynllunio strategol a gweithredol ar gyfer y dyfodol.

Mae’r blaenoriaethau canlynol yn creu fframwaith ar gyfer fy amcanion ar gyfer y chweched dosbarth:

- **Cyrraedd y Safonau Rhyngwladol a rhagori arnynt**
- **Hyrwyddo Cydraddoldeb a Thegwch**
- **Cefnogi Swyddi a Thwf**
- **Cynnal cynaliadwyedd ariannol**

Fel awdurdodau lleol, rwy’n disgwyl i chi gadw pwyslais eglur ar sicrhau bod y blaenoriaethau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn eich darpariaeth ar gyfer dysgwyr chweched dosbarth. I ategu'r blaenoriaethau, rwyf am eich annog i barhau i weithio mewn ffordd sy'n sicrhau bod dysgwyr mewn sefyllfa dda i ateb yr heriau economaidd a chymdeithasol sydd o'n blaenau. Rwyf am eich annog hefyd i helpu dysgwyr i dyfu i fod yn aelodau crwn, rhagweithiol a chynhyrchiol o’u cymunedau, drwy greu cysylltiadau agosach â’r cymunedau y mae ysgolion yn eu gwasanaethu. Y gobaith yw y bydd hyn yn golygu mwy o fuddsoddiad mewn sgiliau a hyfforddiant i sicrhau dyfodol llwyddiannus.

Rwy’n sylweddoli mai darpariaeth ôl-16 mewn colegau addysg bellach yw prif bwyslais yr agenda hon, ond rwyf am roi’r wybodaeth ddiweddaraf ar strategaethau allweddol gyda’r nod o osod y sector cyfan yn ei gyd-destun, gan gydnabod y camau rydych wedi’u cymryd wrth gydweithio dros y blynyddoedd diwethaf.

Rwy’n disgwyl ichi barhau i weithredu ar y cyd ac yn strategol er mwyn gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael, gan gydnabod y senario debygol sef y bydd cyllid cyhoeddus yn parhau i ostwng yn ystod y blynyddoedd a ddaw. Wrth bennu fy mlaenoriaethau ar gyfer darpariaeth ôl-16, rhaid i mi bwysleisio nad yw'r brys i greu economi gynaliadwy a chystadleuol i Gymru wedi newid, ac yn hynny o beth mae Datganiad Polisi Llywodraeth

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence. @wales.gsi.gov.uk

*Wedi’i argraffu ar bapur wedi’i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Cymru ar Sgiliau yn 2014 yn dal i fod yn bwynt cyfeirio dilys ar gyfer polisi addysg ôl-16 yng Nghymru.

Mae'n bwysig bod dysgwyr yn gallu datblygu dealltwriaeth o'r cyfleoedd gyrfa a'r llwybrau dilyniant sydd ar gael iddynt. Rhaid cefnogi'r amcan hwn drwy ddarparu lleoliadau profiad gwaith gwerth chweil a gwella sgiliau hanfodol dysgwyr er mwyn eu helpu i wneud y gorau o fyd gwaith, a/neu ddysgu uwch. Mae'r camau hyn yr un mor bwysig i ddysgwyr sy'n dilyn llwybrau academaidd ag y maent i ddysgwyr galwedigaethol; mae angen i bob person ifanc gael eu paratoi â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gymryd rhan a ffynnu ym myd gwaith.

Dim ond drwy gydweithio y gallwn sicrhau y caiff pobl ifanc gyfleoedd cyfartal i gyrraedd y safonau uchaf a'u bod yn hyderus, yn uchelgeisiol ac yn arloesol. Bydd ein llwyddiant yn y dyfodol yn deillio o optimistiaeth ynghylch potensial ein myfyrwyr, ein hathrawon a'n sefydliadau. Mae yna heriau o'n blaenau, ond maent i'w croesawu yn hytrach na'u hosgoi. Rydym i gyd wrthi'n gwneud penderfyniadau pwysig ynghylch ein gallu, gyda'n gilydd, i greu system addysg sy'n fodern, yn rhagorol ac yn arloesol. Rydym am weld sector sy'n darparu ar gyfer pob oedran; proffesiwn addysgu unedig sy'n ymroddedig i ragoriaeth; ac ysgolion, colegau a phrifysgolion o'r radd flaenaf sy'n meithrin cysylltiadau cryf â'i gilydd.

Drwy gydweithio a gwneud y pethau sylfaenol yn iawn, gallwn godi ein safonau a chyflawni ein huchelgais i sicrhau rhagoriaeth i bawb, gallwn ganolbwyntio ar gau'r bwlch cyrhaeddiad, a gallwn ddarparu system addysg gynaliadwy sy'n cynnig addysg i fwy o bobl, yn cefnogi myfyrwyr, ac yn hyrwyddo arloesi ac entrepreneuriaeth.


Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er gwaethaf amgylchedd economaidd sydd â heriau di-ri, mae'r sector ôl-16 yng Nghymru wedi mynd o nerth i nerth. O ran y blaenoriaethau yn y llythyr hwn, credaf y gall y sector adeiladu ar y llwyddiannau hyn a sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl i ddysgwyr a chyflogwyr, a pharhau i greu dyfodol sy'n rhoi ein cenedl mewn sefyllfa gref wrth inni ddod drwy heriau economaidd y blynyddoedd diwethaf. Mae'r rhain yn feysydd polisi lle mae yna gyfleoedd gwirioneddol i wella gwasanaethau a chreu sector ôl-16 a all ymateb yn well i heriau economaidd a chymdeithasol Cymru.

Os oes gennych gwestiynau, cysylltwch ag Andrew Clark, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau yn Andrew.Clark@cymru.gsi.gov.uk neu ar 01443 663 913.

Yn gywir



Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg



Alun Davies AC / AM
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

**Atodiad 1**

**Blaenoriaethau ar gyfer y chweched dosbarth mewn awdurdodau lleol ar gyfer 2017/18:**

**Blaenoriaeth 1: Cyrraedd y Safonau Rhyngwladol a rhagori arnynt**

Fel gwledydd eraill, mae Cymru'n cystadlu er mwyn datblygu'r sgiliau a fydd yn diffinio pa mor gystadleuol fyddwn ni yn y dyfodol ac yn cefnogi'r gwaith o esblygu yn wlad fedrus iawn, gan gynyddu cynhyrchiant, lleihau rhwystrau i fyd gwaith a chefnogi pobl i gael gwaith. Rhaid i ni gynnig darpariaeth o ansawdd uchel i ddysgwyr, sy'n arwain at raglenni sgiliau uwch, a hyfforddiant sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol. Wrth wneud hynny, rhaid i ni dderbyn bod lle ar gyfer gwell gweithio ar y cyd i sicrhau bod dysgwyr yn cael dewis ac i rannu arfer da er budd dysgwyr yn hytrach na chystadlu.[1]

Roedd Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yn cyflwyno ac yn ehangu mynediad at ddysgu galwedigaethol i fyfyrwyr chweched dosbarth drwy annog gwaith partneriaeth rhwng ysgolion a cholegau, cynyddu dewis i ddysgwyr, a helpu i gynnal ymwneud rhai pobl ifanc â dysgu, pobl ifanc a allai fod wedi ymddieithrio. Cefais fy nharo gan arfer arloesol mewn rhai partneriaethau 14-19 lleol, gan gynnwys sefydlu byrddau partneriaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdod lleol ac ysgolion a cholegau lleol, amserlennu cyffredin a rhannu cyfleusterau cludiant er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn gallu cael mynediad at y ddarpariaeth maent yn ei dymuno.

Mae’r blynyddoedd nesaf yn hollbwysig o ran cyflawni’r uchelgeisiau a rennir – ac a fynnir, yn wir – ledled Cymru. Mae’r gwaith wedi dechrau i gyflwyno cwricwlwm newydd, a fydd wedi’i lunio yng Nghymru, ond y bydd cwricwla gorau’r byd wedi dylanwadu arno. Drwy fabwysiadu’r fframwaith newydd, byddwn yn sicrhau bod ein pobl ifanc yn abl i fyw bywydau personol, dinesig a phroffesiynol cyflawn yn ein democratiaeth fodern.

Cyhoeddwyd canlyniadau Safon Uwch 2015/16 ar 18 Awst. Er bod y gyfradd basio gyffredinol yr un fath ag yn 2015, roedd y gyfradd basio A*-C wedi gostwng 0.5 pwynt canran i 73.8%, ac roedd y gyfradd basio A*-A wedi gostwng 0.4 pwynt canran i 22.7%. Er bod cyfraddau cyrhaeddiad dysgwyr yn parhau ar lefel barchus, ni allwn fforddio i laesu dwylo. Rhaid inni gadw llygad barcud ar y safonau.

Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn anodd cymharu rhwng ysgolion a cholegau addysg bellach o ran eu data perfformiad. Er bod mwy o ddysgwyr 16-19 oed mewn colegau addysg bellach nag yn y chweched dosbarth yn gyffredinol, roedd tua 3-4 gwaith yn fwy o ddysgwyr Safon Uwch mewn chweched dosbarth nag mewn colegau.

Ar hyn o bryd, caiff canlyniadau dysgwyr mewn chweched dosbarth ac mewn colegau eu mesur ar wahân drwy ddulliau gwahanol, ac nid yw’r naill na’r llall yn rhoi digon o sylw i raddau. Mae’r gwaith i ddatblygu cyfres newydd, gyson o fesurau, a gaiff eu defnyddio yn y ddau sector, eisoes wedi dechrau. Bydd cyflwyno cyfres newydd o fesurau perfformiad cyson, a gaiff ei defnyddio mewn addysg bellach ac mewn dosbarthiadau chwech, yn rhoi darlun mwy crwn o ddeilliannau dysgwyr ar bob lefel. Bydd y mesurau yn cynnwys cyflawniad, gwerth ychwanegol a chyrchfannau dysgwyr, a'r bwriad yw y byddant ar waith ar gyfer dechrau blwyddyn academaidd 2017/18, er ein bod yn rhagweld cyfnod o 'redeg ar y cyd' â'r mesurau presennol.

[1] Papur gwyntyllu ar ddosbarthiadau chwech 2016; *http://llyw.cymru/statistics-and-research/think-piece-possible-options-improving-performance-efficiency-sixth-forms/?skip=1&lang=cy*

Yn anochel, bydd y mesurau newydd yn gofyn am newid pwyslais ar gyfer colegau ac ysgolion, gan roi rhagor o bwyslais ar gyflawniad dysgwyr o safbwynt eu hamcanion dysgu cyffredinol, ac ar fonitro eu parodrwydd i fynd ymlaen i ddysgu ar lefel uwch neu i gael gwaith. Mae fy swyddogion wedi cychwyn y broses o weithio gydag awdurdodau lleol a chonsortia i ddatblygu ac ymgynghori ar fformat y mesurau, ac fe wyddom fod llawer o awydd i gael ffyrdd mwy cyson a chadarn o fonitro deilliannau chweched dosbarth. Rwy'n eich annog i ymwneud yn llawn â'r gwaith ymgynghori ar y dull a gynigir.

Ar hyn o bryd, nid yw arolygiadau ysgolion yn canolbwyntio'n fanwl ar y chweched dosbarth. Maent yn gyfyngedig gan y data sydd ar gael i fesur perfformiad. Mae gan Estyn ran bwysig yn y gwaith o ddatblygu'r mesurau perfformiad cyson a nodir uchod, ac mae'n awyddus i roi pwyslais mwy ar ddarpariaeth chweched dosbarth pan fydd y cylch arolygu newydd yn dechrau yn 2017. Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos ag Estyn i sicrhau bod arolygiadau ysgolion a cholegau yn canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau Safon Uwch a gwerth ychwanegol, gan adeiladu ar ganlyniadau adolygiad thematig o ddosbarthiadau chwech y gobeithir ei gynnal dros y misoedd nesaf.

**Blaenoriaeth 2: Hyrwyddo Cydraddoldeb a Thegwch**

Mae rhan bwysig gan awdurdodau lleol i'w chwarae yn y gwaith o roi mynediad at addysg bellach ac uwch, nodi llwybrau dilyniant, a chefnogi'r economi yn lleol ac yn rhanbarthol. Er mwyn sicrhau'r manteision hyn yn effeithiol rhaid i lywodraethwyr ysgolion ac uwch reolwyr feithrin a mabwysiadu ffordd gydweithredol o gynnig darpariaeth. Rwy'n croesawu'r cyfraniad mae ysgolion yn ei wneud eisoes i waith partneriaeth ar lefel leol a rhanbarthol, ac rwy'n eu hannog i barhau â'u gwaith gyda cholegau addysg bellach, cyflogwyr lleol a darparwyr hyfforddiant preifat er mwyn gwella cyfranogiad, cyrhaeddiad a datblygiad dysgwyr.

Rhaid i bobl ifanc sy'n gadael addysg orfodol feddu ar y sgiliau hanfodol sydd eu hangen arnynt ar gyfer bywyd a gwaith, er mwyn bod yn ddinasyddion crwn. Drwy'r Cynllun Gweithredu Sgiliau, disgwyliwn y bydd pob unigolyn sy'n cwblhau addysg orfodol neu ôl-orfodol yn cael cefnogaeth i gaffael sgiliau llythrennedd a rhifedd ac i'w gwella, sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer y byd gwaith neu i fynd ymlaen i ddysgu ymhellach.

Dangosodd yr Arolwg Cenedlaethol diweddaraf o Sgiliau Oedolion mai pobl 16-19 oed oedd y grŵp oedran mwyaf tebygol o fod â sgiliau llythrennedd ar Lefel Mynediad neu is, gydag 20 y cant wedi'u hasesu ar y lefel hon. O'r herwydd, mae'r angen i fuddsoddi yn sgiliau'r garfan hon yn parhau, ac mae'r angen yn debygol o barhau. Mae dosbarthiadau chwech yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o ddarparu i'r grŵp hwn, ac mae'n hanfodol bod y ddarpariaeth hon yn cael ei datblygu a'i chryfhau yn barhaus. Gofynnaf i bob un ohonoch ofalu peidio â bod yn hunanfodlon, oherwydd mae'r angen i godi lefelau llythrennedd a rhifedd sylfaenol dysgwyr Cymru yn dal i fod o'r pwys mwyaf. Ga i bwyso arnoch i gefnogi dysgwyr i ddatblygu lefelau derbyniol o sgiliau llythrennedd a rhifedd er mwyn eu galluogi i symud ymlaen yn eu dewis faes gwaith/maes astudio.

Roedd ein Strategaeth Tlodi Plant Ddiwygiedig yn 2015 yn canolbwyntio ar leihau nifer y plant yng Nghymru sy'n byw mewn aelwydydd heb waith, cynyddu sgiliau pobl ifanc a'u galluogi i sicrhau gwaith am gyflog da, a lleihau'r anghydraddoldeb sy'n bodoli o ran deilliannau economaidd, iechyd ac addysg aelwydydd incwm isel. Mae'r Strategaeth ddiwygiedig yn rhoi cyfle i ni ailganolbwyntio ein hymdrechion i drechu tlodi plant yng Nghymru, a chefnogir hynny drwy gynnal y pwyslais ar ddatblygu protocolau rhannu gwybodaeth cadarn fel bod modd adnabod dysgwyr sydd mewn perygl a'u cefnogi cyn gynted â phosibl.

Mae chweched dosbarth ysgolion eisoes yn chwarae rhan weithgar yn y gwaith o feithrin gallu dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig, a hoffwn iddynt barhau i yrru dulliau o gyflenwi, datblygu a chydlynu ystod o gyfleoedd sy'n diwallu eu hanghenion, gan weithio gyda sefydliadau addysg bellach ac uwch yn ogystal â phartneriaid cymunedol. Os ydym am gyrraedd y nod o drechu tlodi yn ein cymdeithas, mae angen i ni sicrhau bod darpariaeth yn cael ei thargedu er mwyn rhoi cyfleoedd dysgu sy'n helpu ein pobl ifanc i gael gwaith ac i gadw gwaith; er mwyn ehangu cyfranogiad oedolion; ac er mwyn cynyddu nifer y dysgwyr sy'n cael eu tynnu o gefndiroedd a chymunedau difreintiedig i barhau â'u hastudiaethau, gan feithrin eu hyder a'u gallu.

O ganlyniad i fenter i ymestyn cyfleoedd ar gyfer ein myfyrwyr disgleiriaf, o ba gefndir bynnag, lansiwyd Rhwydwaith Seren ym mis Ionawr 2015. Mae Rhwydwaith newydd Seren wedi dechrau cryfhau'r cydweithio rhwng ysgolion a cholegau i gefnogi myfyrwyr sy'n abl yn academaidd. Mae naw o'r 11 canolfan bartneriaeth arfaethedig wedi'u sefydlu'n ffurfiol er mwyn annog dysgwyr i wneud cais i brifysgolion mwyaf blaenllaw'r Deyrnas Unedig. Mae pob canolfan yn cynnwys clwstwr o ysgolion a cholegau Addysg Bellach mewn ardal leol, yn cydweithio ochr yn ochr ag awdurdodau lleol a chonsortia addysg i ddarparu gweithgareddau uwch-gwricwlaidd (ymestyn a herio) ar gyfer disgyblion Blwyddyn 12, ac i ddarparu arweiniad a chymorth i baratoi ar gyfer y brifysgol. Mae yna le i adeiladu ar y datblygiad hwn a'i grynhoi er budd pob dysgwr. Gellid gwella'r prosesau rhannu gwybodaeth, mentora, adolygu a chyfoethogi (ee cysylltiadau â chyn-fyfyrwyr, ysgolion haf, ymweliadau â sefydliadau addysg uwch, mentora), ar sail yr arferion gorau presennol. Mae swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn paratoi canllawiau ar gyfer delio â dysgwyr Mwy Abl a Thalentog a allai fod yn fan cychwyn defnyddiol.

Gallaf ond ailadrodd y cais y dylai ysgolion fynd ati i ymwneud â'r gwaith o gyflwyno prosiect Rhydgrawnt.

Rwy'n falch o weld y cynnydd yn nifer y dysgwyr ôl-16 sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Caiff cynlluniau awdurdodau lleol ar gyfer cwricwlwm cyfrwng Cymraeg a dwyieithog eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg blynyddol a'u Cynlluniau Cyflawni Ôl-16. Rwyf am bwyso ar awdurdodau lleol i drafod a chytuno ar feysydd cyffredin ar gyfer cydweithio â'r colegau addysg bellach yn eu hardaloedd, er mwyn sicrhau continwwm ieithyddol wedi'i gynllunio ar gyfer pobl ifanc ôl-16, a darparu manylion cynlluniau eu darpariaeth ar gyfer 2017/18. Rwy'n ymwybodol o'r ffaith bod fforymau yn bodoli yn ardal pob Awdurdod Lleol i drafod a chynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eu hardaloedd. Rydym yn gobeithio y byddai cynrychiolwyr awdurdodau lleol yn aelodau allweddol o'r fforymau hyn ac yn chwarae rhan greiddiol yn y gwaith o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn golygu rhoi mewnbwn i'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, ac yn benodol deilliant 4 yn ymwneud â 'Mwy o fyfyrwyr 16–19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith'.

Rwy'n croesawu datblygiad eich cynlluniau manwl ar ddarpariaeth arfaethedig a meysydd twf ar gyfer 2017/18 ac rwy'n edrych ymlaen at dderbyn eich adroddiadau cynnydd presennol yn ystod blwyddyn academaidd 2016/17. Dylai eich cynlluniau gynnwys targedau eglur ar gyfer twf blynyddol i gefnogi'r targedau cenedlaethol a nodir yn Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru.

**Blaenoriaeth 3: Cefnogi Swyddi a Thwf**
Dylai gwella sgiliau cyflogadwyedd fod yn sail i'r holl ddarpariaeth ôl-16, er mwyn cynyddu uchelgais dysgwyr o ran cael gwaith a'u dyhead o ran enillion. Dylai fod yn amcan amlwg yn eich gwaith cynllunio darpariaeth.

Mae'r Fframwaith Cynllunio a Chyllido yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddefnyddio Gwybodaeth am y Farchnad Lafur i lywio'r gwaith blynyddol o gynllunio a blaenoriaethu darpariaeth er mwyn adlewyrchu anghenion y farchnad lafur a'r sgiliau mae cyflogwyr lleol yn eu gwerthfawrogi. Rwy'n eich annog chi felly i ddefnyddio Gwybodaeth am y Farchnad Lafur wrth ystyried llwybrau dysgu galwedigaethol i ddysgwyr er mwyn ystyried sut y bydd eich darpariaeth yn diwallu anghenion y farchnad lafur leol/blaenoriaethau sector fel y'u nodir mewn Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol. Ym mis Gorffennaf 2016, datblygodd y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, ym mhob un o'r tri rhanbarth ledled Cymru, ail fersiwn o'u cynlluniau cyflogaeth a sgiliau rhanbarthol i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Rwy'n eich annog i roi ystyriaeth i'r blaenoriaethau sector sydd wedi'u nodi yn y Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol.[2] Mae ystod o Wybodaeth am y Farchnad Lafur ar gael drwy'r Porth Sgiliau, ac ar StatsCymru, ynghyd â'r tair Arsyllfa Dysgu a Sgiliau Ranbarthol[3].

Fel partneriaid cyflenwi mae'n bwysig eich bod yn parhau i weithio'n agos gyda fy swyddogion er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyd-fynd â pholisi sgiliau Llywodraeth Cymru a'r dystiolaeth yn y cynlluniau. Rhaid ystyried y blaenoriaethau a nodir ar lefel ranbarthol fel rhan o'r broses cynllunio addysg bellach ac awdurdodau lleol fel y nodir yn y canllawiau a gyhoeddir yn ystod y cylch. Mae'r partneriaethau yn cefnogi'r nod o ddarparu mynediad at sgiliau sy'n ymateb i anghenion lleol ac maent yn sail i'r seilwaith hirdymor sydd ei angen er mwyn sefydlu model ar gyfer darparu sgiliau'n rhanbarthol.

Yn yr un modd, rhaid i ni sicrhau bod y dysgwyr hynny sy'n dewis llwybr academaidd yn cael eu paratoi â'r sgiliau y bydd arnynt eu hangen ar gyfer cyflogaeth. Mae rhaglen ddiwygiedig Bagloriaeth Cymru yn cynnwys heriau sgiliau sydd â phwyslais penodol ar sgiliau menter a chyflogadwyedd, a byddwn yn annog pob ysgol yn gryf i ddefnyddio'r cyfle hwn, wedi'i gyfuno â chyngor gyrfaoedd a phrofiad gwaith perthnasol, er mwyn helpu i baratoi dysgwyr ar gyfer byd gwaith.

**Blaenoriaeth 4: Cynnal cynaliadwyedd ariannol**

Mae ymateb i doriadau cyllid parhaus yn gofyn am hyblygrwydd a chreadigrwydd er mwyn gallu ymateb gyda chydymdeimlad i anghenion cymunedau a chyflogwyr lleol yn y dyfodol. Mae cyfle go iawn i gydweithio a rhannu cynlluniau ar gyfer datblygu yn y dyfodol, gan wneud hynny'n gynnar i osgoi dyblygu a chystadlu diangen ac i wneud y gorau o arbedion cost.

Mae buddsoddi mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 yn hanfodol er mwyn gwella rhagolygon dysgwyr, busnesau a'r economi yn ei chyfanrwydd. Er mwyn sicrhau bod arian cyhoeddus wir yn helpu dysgwyr i gyflawni'r hyn maen nhw'n anelu ato, rhaid i ni sicrhau bod pob punt sy'n cael ei gwario yn cael ei thargedu'n effeithlon i'r pwynt lle gall gyflawni yn fwyaf effeithiol, er mwyn cyflwyno newid cadarnhaol a chydweithio ledled y sector.

---

[2] *Mae rhagor o wybodaeth am bob Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol i'w gweld yn:*
*Y de-ddwyrain: http://sewso.infobasecymru.net/IAS/*
*Y gorllewin a'r canolbarth: http://rlp.infobasecymru.net/IAS/*
*Y gogledd: http://nweo.infobasecymru.net/IAS/*

[3]

- Porth Sgiliau http://busnescymru.llyw.cymru/porthsgiliau
- Stats Cymru https://statscymru.llyw.cymru/
- Arsyllfa Dysgu a Sgiliau Ranbarthol De-Orllewin a Chanolbarth Cymru http://rlp.infobasecymru.net/IAS/
- Arsyllfa Economaidd Gogledd Cymru http://nwef.infobasecymru.net/IAS/launch
- Arsyllfa Sgiliau De Ddwyrain Cymru http://sewso.infobasecymru.net/IAS/

Rwy'n sylweddoli y bydd rhai yn gweld y dyheadau hyn fel rhai uchelgeisiol, yn enwedig o ystyried yr hinsawdd economaidd. Fodd bynnag, rwy'n dal i gredu y gallwn, drwy weithio gyda'n gilydd, gyflawni'r canlyniad gorau posibl gyda'r adnoddau sydd ar gael. Mae'n hanfodol bod darparwyr ôl-16 yn parhau i weithio'n strategol ac ar y cyd er mwyn gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael, gan gydnabod y ffaith bod cyllid cyhoeddus yn sicr o barhau i ostwng.

**Darpariaethau eraill y polisi:**

*Bagloriaeth Cymru*

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwrando ar y pryderon a godwyd ynghylch gweithredu Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Ein huchelgais o hyd yw bod pawb yn ei mabwysiadu, a bod pob canolfan yn gweithio i sicrhau bod 100% o'r dysgwyr cymwys yn gwneud y Fagloriaeth erbyn 2020, gan gydnabod nad yw'n briodol i bawb o reidrwydd; fodd bynnag, mae rhai mân newidiadau wedi'u gwneud[4]. Rwy'n disgwyl i Gymhwyster Bagloriaeth Cymru gael ei gynnwys yn rhaglen ddysgu pob dysgwr amser llawn 16-19 oed yn ôl eu llwybr dysgu unigol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r holl bartneriaid i sicrhau bod manteision sylweddol Bagloriaeth Cymru yn cael eu cyfleu'n effeithiol.

*Darpariaeth Prentisiaethau Uwch*

Mae'r Llywodraeth newydd wedi ymrwymo i greu lleiafswm o 100,000 o brentisiaethau o ansawdd uchel yn ystod tymor nesaf y Cynulliad. Bydd y prentisiaethau yn canolbwyntio ar bob oedran gydag ymyraethau wedi'u targedu, i annog rhagor o bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed i fynd ar brentisiaethau o ansawdd.

Mae gan Awdurdodau Lleol ran bwysig i'w chwarae yn y gwaith o godi ymwybyddiaeth myfyrwyr chweched dosbarth o'r cyfleoedd mae prentisiaethau yn eu cynnig. Rwy’n disgwyl i’r pwyslais fod ar weithio mewn partneriaeth ag addysg bellach a chyflogwyr i wneud y mwyaf o’r manteision y gall prentisiaethau eu cynnig i ddysgwyr ac i fusnesau. Ar y cyd â'r partneriaethau sgiliau rhanbarthol, bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith o greu prentisiaethau yn y meysydd lle mae’r angen mwyaf ar gyfer economïau rhanbarthol Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod y sgiliau gan Gymru i fodloni gofynion prosiectau seilwaith mawr fel Wylfa2, prosiect carchar Wrecsam neu Fetro De Cymru.

*Adolygiad Hazelkorn*

Cynhaliwyd adolygiad o drefniadau trosolwg a rheoleiddio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru mewn ymateb i amrywio a chymhlethdod cynyddol o ran darparu yn y sector addysg ôl-orfodol, ac yn y trefniadau trosolwg cysylltiedig. Mae *Tuag at 2030: Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru*[5] yn cynnig agenda gyda chyfres o amcanion a mentrau ar gyfer y sector ôl-orfodol, gan gynnwys y chweched dosbarth, addysg bellach ac addysg uwch, dysgu yn y gwaith, ac addysg oedolion a chymunedol. Mae'r ddogfen yn amlinellu fframwaith ar gyfer y dyfodol, ac yn gwneud argymhellion o ran y trefniadau llywodraethu gorau ar gyfer addysg ôl-orfodol i ddiwallu anghenion Cymru'r unfed ganrif ar hugain. Mae fy swyddogion yn gweithio ar argymhellion yr adolygiad, a byddwn yn rhannu canlyniad y gwaith hwnnw gyda chi yn ystod y misoedd a ddaw. Rwy'n gwybod y byddwch yn derbyn ac yn croesawu'r newidiadau a all ddod o ganlyniad i argymhellion yr adroddiad.

*Tasglu Cymoedd y De*

Yn ddiweddar, lansiodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes Dasglu’r Cymoedd er mwyn gwneud Cymoedd y De yn fwy llewyrchus; bydd y rheini ohonoch sydd yn y De-ddwyrain yn ymwybodol o nodau’r fenter. Bydd yn cefnogi newid yng Nghymoedd y De, yn

---

4 *http://cymwysteraucymru.org/news/welsh-bacc-report/?lang=cy&*

5 *http://llyw.cymru/docs/dcells/publications/160310-hazelkorn-report-cy.pdf*

rhoi cyfleoedd i boblogaethau lleol ac yn gwella deilliannau ar draws mesurau o bob math. Dros y pum mlynedd nesaf, bydd y tasglu yn sicrhau ffocws mwy penodol ar adfywio ac ysgogi twf cynaliadwy yng nghymunedau'r Cymoedd, gyda phwyslais ar swyddi a sgiliau; ysgogi mewnfuddsoddi a darparu gwasanaethau cyhoeddus integredig, sy'n ymateb i anghenion cymunedau lleol.

Mae nodau Tasglu'r Cymoedd yn weddol glir o ran gwella gwasanaethau cyhoeddus a mynediad i waith. Mae'r cynllun strategol yn cynnwys "cynllun gweithredu ar gyfer y Cymoedd" sy'n nodi'r ymyriadau sydd eu hagen yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hirach, gan nodi'r partneriaid sydd eu hagen er mwyn cyflawni pob elfen a phryd. Mae angen mynd i'r afael â chyflogaeth a sgiliau mewn ffordd gydlynol yn y Cymoedd, ac rwy'n hyderu yr ewch ati i ymwneud â'r Tasglu er mwyn helpu i lywio'r agenda ar gyfer y dyfodol. Yn hyn oll, mae ymgysylltu â'r rheini sy'n byw yn y Cymoedd yn hollbwysig.